



Mr Simon Gale
Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Tŷ Sardis
Ffordd Sardis
Pontypridd
CF37 1DU

E-bost: Simon.Gale@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Ein cyf/Our ref: qA2168547
Dyddiad/Date: 30 Hydref 2024

Annwyl Simon Gale

**CAIS I ALW I MEWN O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF
1990
GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GWEITHDREFN RHEOLI DATBLYGU)
(CYMRU) 2012 – CYFARWYDDYD O DAN ERTHYGL 18(1)
ADEILADU CYFLEUSTER ADFER AGREGAU
CHWAREL FFOREST WOOD, HEOL Y BONT-FAEN, TALYGARN, PONT-Y-CLUN, CF72
9XD
RHIF Y CAIS: 22/1149/10**

1. Gofynnwyd i Weinidogion Cymru alw'r cais uchod i mewn er mwyn iddynt benderfynu arno eu hunain. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Yr Economi, Ynni, a Chynllunio wedi fy awdurdodi i ystyried a ddylid galw y cais i mewn er mwyn i Weinidogion Cymru benderfynu arno.

Polisi

2. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar alw ceisiadau cynllunio i mewn wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Chwefror 2024. Ym marn Llywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI), fel cyrff etholedig ddylai benderfynu ar gynigion datblygu, ble bynnag y bo'n bosibl. Nid yw Gweinidogion Cymru, fel arfer, yn galw llawer o geisiadau cynllunio i mewn, a byddant ond yn gwneud hynny ble bo materion

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sydd o bwysigrwydd mwy na phwysigrwydd lleol yn gysylltiedig â'r cynnig. Wrth benderfynu a ddylid galw cais i mewn, byddwn yn ystyried pwy ddylai benderfynu ar y cais yn hytrach na phenderfynu a ddylid derbyn y datblygiad neu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio iddo.

Y Cais

3. Mae'r cais cynllunio ar gyfer adeiladu cyfleuster adfer agregau ar safle chwarel weithredol Fforest Wood ym Mhont-y-clun, a fyddai'n prosesu ac yn adfer agregau o domenni sborion gwastraff y safle, yn ogystal ag o wastraff a fewnforiwyd o safleoedd eraill.
4. Gellir crynhoi'r rhesymau dros alw'r cais i mewn fel a ganlyn:
 - Goblygiadau ehangach ledled Cymru mewn perthynas â dehongli caniatâd cynllunio a roddwyd ddegawdau ynghynt pan oedd isadeiledd ffyrdd, datblygiad a thraffig yn sylweddol is na'r lefelau presennol;
 - Yr angen i ystyried atal, effaith hirdymor neu gyfranogiad y gymuned fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015);
 - Gwrthdaro posibl â pholisïau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â theithio llesol, diogelwch ar y ffyrdd, aer glân a newid hinsawdd;
 - Effaith bosibl ar goetir lled-naturiol hynafol sy'n mynd yn groes i Ddeddf yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru; a
 - Pryderon ynghylch cywirdeb data a dogfennau sy'n cefnogi'r cais.

Ystyriaeth a Phenderfyniad

5. Rhoddwyd ystyriaeth i'r pryderon a fynegwyd yn y ceisiadau i alw i mewn (a grynhowyd uchod), cynnwys adroddiad swyddog cynllunio'r ACLI i'r Pwyllgor Cynllunio a gwybodaeth berthnasol arall.
6. O ystyried maint a natur y datblygiad arfaethedig a maint ei effeithiau, rwy'n fodlon nad yw'n arwain at faterion sydd o bwysigrwydd mwy na phwysigrwydd lleol. Nid yw'r cynllun yn debygol o effeithio'n sylweddol ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol, cadwraeth natur neu ddiddordeb hanesyddol, neu ardaloedd sy'n bwysig ar sail eu tirwedd. Nid yw'r cais yn codi problemau cynllunio newydd na phroblemau diogelwch cenedlaethol ac ni chodir unrhyw broblemau perthnasol eraill.
7. O ystyried hynny, **nid wyf yn credu y dylid galw'r cais i mewn i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru**, a chyfrifoldeb eich Awdurdod Cynllunio Lleol ydyw bellach i benderfynu ar y cais fel y gwêl yn briodol.
8. Ni ddylai'r penderfyniad hwn i beidio â galw y cais i mewn gael ei weld mewn unrhyw ffordd fel adlewyrchiad o rinweddau cynllunio'r datblygiad.
9. **Wrth arfer fy mhwerau o dan Erthygl 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO), caiff y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Erthygl 18(1) o'r DMPWO ar 10 Gorffennaf 2024 ar gyfer cais cynllunio 22/1149/FUL ei ganslo drwy hyn.**
10. Byddai o gymorth inni pe byddech yn anfon copi o'r penderfyniad cynllunio mewn cysylltiad â'r cais hwn at fy nghydweithiwr, Nicholas Iles (e-bost Nicholas.Iles@llyw.cymru).

11. Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Technia Environment and Planning Limited, asiantwyr yr ymgeisydd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'H. Butts', with a stylized flourish at the end.

Hywel Butts

Pennaeth Gwaith Achos Cynllunio / Head of Planning Casework

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio | Planning Directorate

Arwyddwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o weinidogion Cymru.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning; one of the Welsh Ministers.